



CYFRES YR HAF 2017



## Ffocws ar Gymraeg

Yr haf hwn bydd cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg newydd yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf. Hwn hefyd yw'r cyfle olaf i ailsefyll yr hen gymhwyster TGAU Cymraeg Iaith.

### Beth sy'n newydd?

Er nad yw rhai o nodweddion y cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith wedi newid, mae'n wahanol i'r hen gymhwyster mewn rhai ffyrdd pwysig.

Mae strwythur cyffredinol y cymwysterau yn aros yr un fath. Mae hyn yn cynnwys dau asesiad siarad a gwrando, un dasg grŵp ac un dasg unigol, sy'n cyfrif tuag at 30% o'r radd derfynol. Mae'r 70% o'r radd sy'n weddill yn seiliedig ar ddau bapur arholiad sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu.

Mae un o'r arholiadau yn dal i gynnwys tasg golygu sy'n canolbwyntio ar allu ymgeiswyr i ysgrifennu'n gywir. Mae'r amrywiaeth o destunau sydd wedi'u cynnwys yn yr arholiadau wedi newid i gynnwys cymysgedd o hyd ac arddull ysgrifennu gwahanol.

Un gwahaniaeth amlwg yn y cymhwyster TGAU Cymraeg Iaith newydd yw nad yw'r asesiadau yn haenog mwyach. Yn flaenorol, sefodd ymgeiswyr bapur haen sylfaen neu haen uwch, ond yn y cymwysterau newydd, bydd pob ymgeisydd yn sefyll pob papur, ni waeth pa radd maent yn anelu ati.

Mae'r cymhwyster newydd yn llinol, ac roedd yr hen gymhwyster yn unedol. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i fyfyrwyr sefyll eu holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs, lle gallent sefyll unedau ac ailsefyll unedau drwy gydol y cwrs yn flaenorol.

Mae'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn debyg i'r hen gymhwyster. Mae'n parhau i fod yn gymhwyster unedol sy'n golygu y gall dysgwyr sefyll unedau ac ailsefyll unedau yn ystod y cwrs.



CYFRES YR HAF 2017



## Pwy sy'n astudio'r cymwysterau hyn yr haf hwn?

Ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, mae'r data cofrestriadau ar gyfer yr haf hwn yn dangos cynnydd o 21% yn y myfyrwyr sy'n astudio'r cymhwyster, o'i gymharu â haf 2016.

Caiff y cynnydd hwn ei lywio gan 1,030 o gofrestriadau blwyddyn 10 yr haf hwn o'u cymharu â llai na 5 myfyriwr ym mlwyddyn 10 a gafodd eu cofrestru yn haf 2016. Nid yw hyn yn rhywbeth rydym wedi'i weld fel arfer yn y pwnc hwn mewn blynyddoedd blaenorol.

Ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, mae'r data cofrestriadau ar gyfer yr haf hwn yn dangos gostyngiad o 11% o fyfyrwyr sy'n astudio'r

cymhwyster o'u cymharu â haf 2016. Un rheswm dros y gostyngiad hwn yw'r gostyngiad yn nifer y cofrestriadau blwyddyn 10 eleni (130 o gofrestriadau yn haf 2016 o'u cymharu â llai na 5 cofrestriad yr haf hwn).

Gall ysgolion benderfynu pryd i gofrestru myfyrwyr ar gyfer arholiadau, ac nid oes strategaeth cofrestriadau 'gywir' ar gyfer pob myfyriwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr wedi astudio cynnwys y cymhwyster i roi'r cyfle gorau iddynt gyflawni eu gradd orau posibl.

## Beth mae hyn yn ei olygu i'r canlyniadau yr haf hwn?

Mae'r patrymau cofrestru newidiol yn debygol o effeithio ar y canlyniadau yr haf hwn.

Ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y myfyrwyr blwyddyn 10 fel cyfran o gofrestriadau cyffredinol yr haf. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn golygu y bydd y canlyniadau cyffredinol yr haf hwn yn is nag ar gyfer blynyddoedd blaenorol.


Bydd angen cymryd gofal wrth ddehongli a chymharu canlyniadau cyffredinol yr haf. Bydd ein cymariaethau yn seiliedig ar y canlyniadau gorau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr sy'n gorffen blwyddyn 11 yr haf hwn.

Rhagor o wybodaeth:

[www.cymwysteraucymru.org](http://www.cymwysteraucymru.org)

E: [yholiadau@cymwysteraucymru.org](mailto:yholiadau@cymwysteraucymru.org)

Ff: 0333 077 2701

 @cymwysterau\_cym

